



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



LLESIANT
CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF
FUTURE GENERATIONS

Dogfen Ymgynghori

Llunio Dyfodol Cymru:

Defnyddio Dangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol i fesur cynnydd ein Cenedl

Cynigion ar gyfer gosod y gyfres gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru a cheisio barn ar effaith pandemig COVID-19 ar y dangosyddion cenedlaethol

Dyddiad cyhoeddi: 1 Medi 2021

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 26 Hydref 2021

llyw.cymru

Cynnwys

- 4** Adran 1. Cyflwyniad i Lunio Dyfodol Cymru
- 6** Adran 2. Cerrig milltir cenedlaethol
- 20** Adran 3. Dangosyddion cenedlaethol
- 23** Adran 4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Golwg gyffredinol**Llunio Dyfodol Cymru**

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar osod cerrig milltir cenedlaethol i Gymru a fydd yn cynorthwyo Gweinidogion i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r dangosyddion cenedlaethol presennol yn sgil y profiadau a gafwyd yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwerthoedd arfaethedig ar gyfer naw carreg filltir genedlaethol a'r newidiadau arfaethedig i'r set o ddangosyddion cenedlaethol.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

Tudalennau gwe Llywodraeth Cymru am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

Tudalennau gwe Senedd Cymru am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 www.busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=10103

Mae blog wedi'i sefydlu i gyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn sydd ar gael yn www.lluniodyfodolcymru.blog.llyw.cymru/

Manylion cyswllt:**I gael rhagor o wybodaeth:**

E-bost: lluniodyfodolcymru@llyw.cymru

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich ymateb erbyn hanner nos 26 Hydref 2021 mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ein ffurflen ar-lein www.smartsurvey.co.uk/s/C5BX3H/?lang=592674
- Lawrlwytho a llenwi'r ffurflen ar-lein a'i he-bostio i: lluniodyfodolcymru@llyw.cymru

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol sydd gennym amdanoch a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Wedyn, byddwn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: ico.org.uk

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w gwblhau gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Bydd unrhyw waith o'r fath ond yn cael ei gyflawni dan gontract. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel. Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch chyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni chaiff unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru eu cadw am fwy na thair blynedd.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch weld y ddogfen hon mewn ieithoedd amgen (www.llyw.cymru/ieithoedd-amgen). Os oes ei hangen arnoch mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni www.llyw.cymru/cysylltu-llywodraeth-cymru.

Termau allweddol

Datblygu Cynaliadwy

Ystyr datblygu cynaliadwy yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, i gyflawni'r nodau llesiant.

Nodau llesiant

Mae'r saith nod llesiant yn dangos y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn cynnig gweledigaeth gyffredin, ac yn disgrifio'r canlyniadau o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a fydd yn gwneud Cymru'n genedl fwy cynaliadwy.

Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae hyn yn golygu meddwl am y dyfodol yn yr hyn a wnawn. Mae pum ffordd o weithio sy'n ffurfio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

Dyletswydd Llesiant

Mae gan rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i ymgymryd â datblygu cynaliadwy – dyma'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon rhaid i gyrff cyhoeddus bennu a chyhoeddi amcanion a fydd yn sicrhau eu bod yn cyfrannu gymaint â phosibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion.

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

I'n helpu i wybod a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at y saith nod llesiant, mae gennym 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Lluniwyd y dangosyddion cenedlaethol i gynrychioli'r canlyniadau a ddymunir i Gymru a'i phobl. Bydd y rhain yn helpu i ddangos y cynnydd tuag at y saith nod llesiant. Nid ydynt yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer sefydliad unigol na gweithredoedd gan sefydliad unigol. Maent yn rhoi darlun cenedlaethol mwy cyfannol o'r hyn sy'n newid.

Cerrig Milltir Cenedlaethol

Mae'r cerrig milltir cenedlaethol yn gyfres o fesurau ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol sy'n nodi ein disgwyliadau o'r hyn y dylai'r dangosyddion ei ddangos yn y dyfodol. Byddant yn ein helpu i ddeall a yw'r dangosyddion cenedlaethol yn symud yn y cyfeiriad cywir ac yn ein symud fel cenedl tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Adroddiad Llesiant Cymru

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad ar gynnydd Cymru tuag at gyflawni'r saith nod llesiant, o'r enw 'Adroddiad Llesiant Cymru'. Mae'n defnyddio'r 46 dangosydd cenedlaethol a data eraill.

ADRAN 1


Cyflwyniad i Lunio Dyfodol Cymru

Yng Nghymru rydym yn gwneud pethau'n wahanol. Mae gennym gyfraith yng Nghymru sy'n ein helpu ni i gyd i weithio gyda'n gilydd i wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant, er lles pobl a'r blaned, yn awr ac at y dyfodol.

Enw'r gyfraith yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cyfeirir ati fel y Ddeddf o hyn ymlaen). Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol mewn ffordd sy'n gysylltiedig â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Nod y Ddeddf yw hwyluso canlyniadau cadarnhaol i bobl Cymru a'r blaned, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Hanfod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant sy'n anelu at feithrin Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, iachach a chydnerth sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae Cymru'n gweithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.




I'n helpu i ddeall dyfodol Cymru, mae gennym eisoes **ddangosyddion** llesiant cenedlaethol, a byddwn yn gosod **cerrig milltir** cenedlaethol i ddarparu dull o fonitro cynnydd cenedlaethol tuag at y saith nod llesiant. Yn ogystal, bydd Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol www.llyw.cymru/tueddiadau-r-dyfodol-2017 yn nodi'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol, yn ogystal â rhai o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar y tueddiadau hynny.

Yn 2016, gosodwyd 46 o ddangosyddion cenedlaethol (y dangosyddion) i'n helpu i fesur cynnydd tuag at y nodau llesiant. Caiff y dangosyddion eu diweddarau drwy gydol y flwyddyn, wrth i ddata newydd ymddangos. Mae'r adroddiad blynyddol o'r enw '**Llesiant Cymru**' www.llyw.cymru/llesiant-cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni'r nodau llesiant, gan gyfeirio at y dangosyddion ynghyd â data perthnasol eraill.

Yn 2019 ymgynghorwyd ar y broses o ddatblygu'r cerrig milltir cenedlaethol, www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-01/newydd-cerrig-milltir-cenedlaethol.pdf a byddant yn dargedau a osodir ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol. Ers hynny, yn ogystal ag ymateb i bandemig COVID-19 rydym wedi wynebu nifer o heriau eithriadol eraill gan gynnwys mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o bob math a pharatoi ar gyfer lle newydd Cymru yn y byd yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r cynigion isod yn adlewyrchu'r cyd-destun hwn.

Llunio Dyfodol Cymru

Rydym wedi cysoni ein cyfrifoldebau i osod cerrig milltir a dangosyddion cenedlaethol, a pharatoi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, fel y gallant, gyda'i gilydd, ein helpu i lunio dyfodol Cymru tuag at y nodau llesiant. I'n harwain wrth inni weithio ar y gwaith hwn rydym yn defnyddio'r pum ffordd o weithio sy'n ffurfio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef meddwl am yr hirdymor, cydweithio, atal, cynnwys ac integreiddio.



Beth fydd yn digwydd nesaf?

Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn ystyried eich barn, ac yna caiff set derfynol o gerrig milltir cenedlaethol cam un ac unrhyw newidiadau i'r dangosyddion eu hystyried a'u cytuno gan Gabinet Llywodraeth Cymru a'u gosod gerbron y Senedd ym mis Rhagfyr 2021. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ochr yn ochr â gosod y cerrig milltir cenedlaethol. Yna, bydd y gwaith o ddatblygu cerrig milltir arfaethedig cam dau yn cyflymu, gyda'r bwriad o gynnal ail ymgynghoriad yn 2022, ar ôl inni weithio'n agos gyda chyrrff cyhoeddus a rhanddeiliaid i fireinio'r gwerthoedd drafft hynny.

Adran 2

Cerrig Milltir Cenedlaethol

Pam rydym yn gosod cerrig milltir cenedlaethol?

Mae'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru yn rhoi disgrifiad o Gymru economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol gyfiawn. Mae cynnydd tuag at y nodau llesiant hyn yn dibynnu ar gamau gweithredu gan bawb yng Nghymru, ac yn enwedig y cyrff cyhoeddus hynny sydd â dyletswydd i gymryd camau i gyflawni'r nodau llesiant. Rydym yn mesur y nodau llesiant drwy'r dangosyddion cenedlaethol, a chredwn y gall gosod cerrig milltir cenedlaethol yn erbyn y dangosyddion hyn helpu i ysgogi cydweithredu, yn ogystal â'n helpu i ddeall cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Rydym yn gosod cerrig milltir cenedlaethol eleni yng nghyd-destun ymrwymiad Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026 i sicrhau Cymru gryfach, decach a gwyrdach.

Beth yw carreg filltir genedlaethol?

Bydd carreg filltir genedlaethol i Gymru yn nodi uchelgais fesuradwy a rennir yn disgrifio cyflymder a graddfa'r newid sydd ei angen mewn meysydd allweddol o dan y saith nod llesiant. Byddant yn ein helpu i ddeall a monitro ein cynnydd ar y cyd a gweld a ydym fel cenedl yn teithio i'r cyfeiriad cywir ac ar y cyflymder cywir tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid gosod cerrig milltir "...y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddent yn cynorthwyo i fesur a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y nodau llesiant." Wrth wneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru bennu sut y byddwn yn gwybod bod y garreg filltir honno wedi ei chyflawni ac erbyn pryd mae angen ei chyflawni.

Gallai carreg filltir genedlaethol fod yn darged penodol, ystod benodol neu ffordd arall o'n helpu i ddeall ein bod ar y trywydd iawn.

Nid yw cerrig milltir cenedlaethol yn dargedau perfformiad ar gyfer unrhyw sefydliad unigol, ond maent yn fesuriadau llwyddiant ar y cyd i Gymru. Gall y cyfraniad hwn ddod o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn ogystal ag unigolion a chymunedau. Mae gan gyrrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf gyfrifoldeb i weithredu a chyfrannu at gyflawni'r nodau.

Ein huchelgais yw i'r cerrig milltir cenedlaethol ddod yn gatalydd ar gyfer cydweithredu, ac yn fesur allweddol o gyflymder a graddfa'r newid mewn nifer o feysydd allweddol.

Sut y gwnaethom ddewis pa gerrig milltir i'w gosod?

Mae ymgynghoriad 2019 *Sut fedrwn ni helpu Gweinidogion Cymru i fesur cynnydd y genedl?* www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-04/newydd-cerrig-milltir-cenedlaethol.pdf yn nodi'r dangosyddion a gynigiwyd gennym i osod cerrig milltir cenedlaethol yn eu herbyn, a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddewis y meysydd hyn.

Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/gerrig-milltir-cenedlaethol-crynodeb-or-ymatebion.pdf a gwnaed gwaith pellach ar fireinio'r set fach o ddangosyddion y byddai cerrig milltir cenedlaethol yn cael eu gosod yn eu herbyn. Cafodd pandemig COVID-19 a'r argyfwng hinsawdd a natur effaith hefyd ar ein ffordd o feddwl, gan helpu i nodi set fach ddiwygiedig o un ar bymtheg o ddangosyddion i osod cerrig milltir cenedlaethol yn eu herbyn.

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol		1	2	3	4	5	6	7
02	Disgwiliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwllch rhwng y bobl fwyaf a'r lleiaf amddifadus			•	•			
03	Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw			•	•	•	•	
05	Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw			•	•	•		
08	Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	•		•	•			
10	Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen	•		•	•			
14	Ôl Troed Ecolegol Cymru	•	•					•
17	Cydraddoldeb Cyflog – ar gyfer rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd	•			•			
18	Tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU	•	•	•	•	•	•	•
21	Y ganran o'r boblogaeth sydd mewn gwaith	•		•	•			
22	Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran	•		•	•	•		
28	Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli					•	•	•
29	Sgôr llesiant meddyliol cymedrig			•	•			
33	Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol	•	•	•				•
37	Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg					•	•	•
41	Allryiadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru	•	•	•				•
44	Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru	•	•			•	•	•

Allwedd

1 Cymru lewyrchus

2 Cymru gydnherth

3 Cymru iachach

4 Cymru sy'n fwy cyfartal

5 Cymru o gymunedau cydlynus

6 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

7 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cerrig milltir Cam Un

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol		1	2	3	4	5	6	7
05	Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw			•	•	•		
08	Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	•		•	•			
14	Ôl Troed Ecolegol Cymru	•	•					•
17	Cydraddoldeb Cyflog – ar gyfer rhywiau, ethnigrwydd ac anabled	•			•			
21	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith	•		•	•			
22	Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran	•		•	•	•		
37	Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg					•	•	•
41	Allryiadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru	•	•	•				•

Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ein syniadau ar werthoedd drafft ar gyfer cerrig milltir cenedlaethol mewn wyth maes, a dyma'r cerrig milltir cenedlaethol y byddwn yn eu gosod yn 2021 a'r meysydd rydym yn ceisio barn arnynt yn yr ymgynghoriad hwn.

Bydd pob carreg filltir genedlaethol yn cyfrannu at nifer o'r nodau llesiant ac, o'u hystyried gyda'i gilydd, bydd yn rhoi syniad da o gynnydd ein cenedl. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar werthoedd drafft ar gyfer cam cyntaf y cerrig milltir cenedlaethol i Gymru, i'w gosod gerbron y Senedd ym mis Rhagfyr 2021. Datblygwyd y gwerthoedd hyn gyda rhanddeiliaid drwy nifer o fforymau, digwyddiadau ymgysylltu a thrafodaethau.

Rydym wedi nodi uchod amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu cerrig milltir cenedlaethol i Gymru mewn dau gam (2021 a 2022). Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym ond yn ceisio barn ar y cerrig milltir cenedlaethol yn y cam cyntaf.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd ceisio barn ar rai newidiadau cyfyngedig i'r set o ddangosyddion i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd a'r profiadau a ddeilliodd o bandemig COVID-19 yn benodol.

Gwerthoedd arfaethedig ar gyfer y cam cyntaf o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi ein cynigion ar gyfer y cam cyntaf o gerrig milltir cenedlaethol a'r gwerthoedd yr hoffem gael eich barn arnynt. Mae cwestiynau sy'n ymwneud â phob carreg filltir genedlaethol arfaethedig wedi'u cynnwys ar y ffurflen ar-lein www.smartsurvey.co.uk/s/C5BX3H/?lang=592674.

Carreg Filltir 1 a 2:

Dangosydd Rhif 08	Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol		
	1 Cymru lewyrchus	3 Cymru iachach	4 Cymru sy'n fwy cyfartal
Carreg Filltir 1	Bydd 75% o oedolion o oed gweithio yng Nghymru wedi'u cymhwyso i Lefel 3 neu uwch erbyn 2050		
Carreg Filltir 2	Bydd canran yr oedolion o oed gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu'n is ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050		

Beth mae'r data'n dweud wrthym?

Cyhoeddwyd yr ystadegau diweddaraf www.llyw.cymru/lefel-y-cymwysterau-uchaf-ddelir-gan-oedolion-o-oed-gweithio-2020 ar y dangosydd cenedlaethol hwn (ar gyfer 2020) ym mis Ebrill 2021.

Dangosodd dadansoddiad 2020 fod lefelau cymwysterau yng Nghymru ar y cyfan, wedi cynyddu yn 2020, gan barhau â'r cynnydd cyffredinol a welwyd dros amser.

Amcangyfrifir bod gan 80.9% o oedolion o oed gweithio yng Nghymru gymwysterau lefel 2 o leiaf o'i gymharu â 79.1% yn 2019. Roedd 62.3% o oedolion o oed gweithio yng Nghymru wedi cymhwyso i lefel 3 o leiaf o'i gymharu â 59.4% yn 2019. Dywedodd 7.3% o oedolion o oed gweithio yng Nghymru nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau o'i gymharu ag 8.2% yn 2019.

Roedd y gyfran sy'n meddu ar gymwysterau addysg uwch neu gymwysterau lefel gyfatebol (NQF lefel 4 neu uwch) yn 41.4% o'i gymharu â 38.8% yn 2019. Y newid yng nghyfran yr oedolion o oed gweithio yng Nghymru sy'n meddu ar gymwysterau ar lefel 4 neu'n uwch oedd y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn ers i ystadegau ddechrau cael eu cyfrifo o dan y diffiniad o boblogaeth o oed gweithio rhwng 18 a 64 yn 2008. Roedd hyn hefyd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd yn y gyfran sy'n meddu ar gymwysterau ar lefel 3 neu'n uwch, sef y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn ers 2008.

Pam y cerrig milltir cenedlaethol hyn?

Mae'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig gyntaf yn adeiladu ar dargedau a osodwyd yng *Nghynllun Cyflogadwyedd* Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru/cynllun-cyflogadwyedd. Mae targed yn bodoli i ddileu'r bwlch rhwng Cymru a gweddill y DU ar bob lefel cymhwyster mewn deng mlynedd, a sicrhau yn y dyfodol ein bod o leiaf yn cynnal ein perfformiad o'i gymharu â gweddill y DU.

Mae pobl sydd â chymwysterau a sgiliau lefel uwch yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth barhaus, gyda mwy o enillion a chyflog uwch, yn enwedig i'r unigolion hynny o ardaloedd difreintiedig.

Mae gan Gymru lawer i'w ennill o gynyddu ein cefnogaeth ar gyfer sgiliau sylfaenol a digidol. Bydd hyn yn rhoi'r sgiliau i unigolion ar gyfer byd sy'n newid, gan hefyd gynyddu gallu'r gweithlu i addasu drwy ddarparu cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau a meithrin rhai newydd.

Rydym wedi gweithio gydag arbenigwyr yn y Sefydliad Dysgu a Gwaith i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu carreg filltir genedlaethol yn y maes hwn, yn enwedig i helpu i ystyried a ddylid parhau i ddefnyddio cymariaethau â'r DU gyfan.

Er bod y targed presennol yn glir ac yn ddealladwy, mae ganddo'r anfantais o "gloi" meysydd presennol o danberfformio, yn enwedig tanberfformiad cymharol oedolion ag ychydig neu ddim cymwysterau a'r rhai â chymwysterau Lefel 3. Felly, mae perygl na fyddai hyd yn oed cyrraedd y targed presennol a chau'r bwlch gyda gweddill y DU yn mynd i'r afael â'r meysydd ehangach hyn o danberfformio.

Felly, awgrymwn y dylai prif ffocws unrhyw garreg filltir genedlaethol newydd fod ar ddatblygu targedau penodol ar gyfer lleihau cyfran yr oedolion heb gymwysterau a chodi cyfraddau ar Lefel 3 ac uwch. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chystadleurwydd (er enghraifft, ein sylfaen sgiliau lefel uwch) a hefyd i fynd i'r afael ag amddifadedd drwy leihau cyfran yr oedolion heb gymwysterau.

Sicrhau bod 75% o oedolion o oed gweithio yng Nghymru wedi'u cymhwyso i lefel 3 yw ein huchelgais sylfaenol ond mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a rhanddeiliaid eraill i ystyried a ellid gosod carreg filltir darged fwy heriol fyth ym mis Rhagfyr.


Lefel 3 (sy'n cyfateb i Safon Uwch) yw'r porth i swyddi sgiliau uchel ac addysg uwch; dyma'r lefel y gall gweithwyr masnach proffesiynol ymgymryd â rolau technegol lefel uchel, gyda'r wybodaeth ddamcaniaethol a chymhwysol i weithio'n annibynnol ac ychwanegu gwerth i gyflogwyr. Mae ymchwil yn dangos bod yr enillion cynhyrchiant ar gyfer unigolion sydd wedi cymhwyso i Lefel 3 yn llawer uwch na'r rhai sydd wedi cymhwyso i Lefel 2. Mae gosod carreg filltir genedlaethol ar gyfer y lefel hon yn dangos ein huchelgais i godi lefelau sgiliau, a hefyd effeithio'n gadarnhaol ar gyfraddau cymwysterau ar lefelau uwch.

Bwriad yr ail garreg filltir genedlaethol yn benodol yw mynd i'r afael â'r canfyddiad sylweddol nad oes gan ganran uwch o oedolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru unrhyw gymwysterau.

Yn seiliedig ar ddata www.statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-Indicator-data-2019/indicatordata-by-deprivationtenths o Gyfrifiad 2011, mae cyfran y bobl heb gymwysterau bron bum gwaith yn uwch ar gyfer oedolion sy'n byw yn y 10% o gymdogaethau mwyaf difreintiedig o gymharu â'r 10% lleiaf difreintiedig.

Mae cryn amrywiaeth ar lefel awdurdodau lleol. Yn 2020, roedd y cyfrannau uchaf ym Merthyr Tudful (13.9%) a Blaenau Gwent (11.1%) a'r isaf ym Mro Morgannwg (3.2%) a Sir Fynwy (3.8%). Mae'r rhain yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 7.3%.

Canran yr oedolion o oed gweithio heb unrhyw gymwysterau, yn ôl awdurdod lleol 2020



Felly, byddai gosod targed i Gymru gyfan i leihau canran yr oedolion o oed gweithio heb unrhyw gymwysterau yn debygol o guddio anghydraddoldebau sylweddol rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod y dylai mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o'r math hwn fod yn un o'r uchelgeisiau sylfaenol o osod cerrig milltir genedlaethol a'r camau gweithredu a gweithgareddau ar y cyd a gymerir o ganlyniad.

Wrth adrodd yn erbyn y garreg filltir genedlaethol gyntaf, byddwn yn cyhoeddi data yn ôl nodweddion gwarchoddedig gan gynnwys rhyw, oedran, anabledd ac ethnigrwydd. Bydd dadansoddiadau tebyg ar gyfer yr ail garreg filltir genedlaethol yn dibynnu ar faint y samplau ar lefel awdurdodau lleol.

Carreg Filtir 3:

Dangosydd Rhif 22	Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (gwahanol grwpiau oedran)			
	1 Cymru lewyrchus	4 Cymru sy'n fwy cyfartal		
	3 Cymru iachach	5 Cymru o gymunedau cydlynus		
Carreg Filtir 3	Bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050			

Beth mae'r data'n dweud wrthym?

Cyhoeddwyd yr ystadegau diweddaraf www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro ym mis Gorffennaf 2020 ac maent yn cynnwys amcangyfrifon terfynol ar gyfer blwyddyn galendr 2018 ac amcangyfrifon arfaethedig ar gyfer 2019. Roedd canran y bobl ifanc 16 i 18 oed mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn 88.9% yn 2019, i lawr o 89.4% y flwyddyn flaenorol. Roedd 84.3% o bobl ifanc 19 i 24 oed mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn 2019, cynnydd bychan o gymharu â 84.0% y flwyddyn flaenorol.

Cyhoeddir amcangyfrifon o gyfranogiad pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn flynyddol ym mis Gorffennaf, ond caiff y datganiad nesaf ei gyhoeddi ym mis Medi 2021 oherwydd bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bwriadu ail-lunio pwysoliadau setiau data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o fis Ionawr 2020 ymlaen.

Cyhoeddir amcangyfrifon ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed a phobl ifanc 19-24 oed.

Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Cafodd Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi yn 2018, ac mae'n gosod nifer o dargedau gan gynnwys ymrwymiad i leihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru.

Ceir tystiolaeth gref y gall cyfnodau o anweithgarwch economaidd a diweithdra yn gynnwys ym mywyd gwaith unigolyn gael effaith andwyol ar amrywiaeth o ganlyniadau yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae cyfnodau o anweithgarwch economaidd sy'n

para dros flwyddyn yn arbennig o niweidiol i bobl ifanc. Mae diweithdra, tangyflogaeth ac anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn ffactorau amlwg yng nghyd-destun anghydraddoldebau.

Er y bu gwelliannau hirdymor mewn perthynas â'r farchnad lafur a chyd-destun cyflogadwyedd ehangach yng Nghymru, mae pobl ifanc yn arbennig o agored i effeithiau'r newidiadau mewn cyflogaeth a achoswyd gan bandemig COVID-19.

Bydd carreg filltir genedlaethol sy'n parhau i ganolbwyntio ar nifer y bobl ifanc sydd mewn Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant yn helpu i sbarduno adnoddau a gweithgarwch mewn perthynas ag un o ymrwymadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu ar Warrant Person Ifanc. Bydd hefyd yn helpu i gryfhau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid a bod yn gatalydd ar gyfer ein dull gweithredu hirdymor cydgysylltiedig.

Wrth adrodd yn erbyn y garreg filltir genedlaethol hon, byddwn yn cyhoeddi'r data yn ôl rhyw. Mae cyfyngiadau data yn golygu nad yw'n bosibl ar hyn o bryd i ddadgyfuno prif fesur y rhai sydd mewn Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant gan nodweddion gwarchoddedig eraill. Fodd bynnag, mae ein mesur eilaidd o'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) – y gyfres *Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth* www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet – yn cael eu cyhoeddi yn ôl oedran ac anabled, am gyfnod cyfartalog o dair blynedd. Efallai y bydd yn bosibl dadansoddi'r mesur hwn yn ôl nodweddion eraill lle mae meintiau sampl yn caniatáu. Unwaith eto, mae'n debygol y byddai angen i hyn fod yn seiliedig ar gyfnod cyfartalog o dair blynedd.

Carreg Filltir 4:

Dangosydd Rhif 21	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith		
	1 Cymru lewyrchus	3 Cymru iachach	4 Cymru sy'n fwy cyfartal
Carreg Filltir 4	Dileu'r bwlch rhwng y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar godi cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur		

Beth mae'r data'n dweud wrthym?

Mae'r dangosydd hwn yn dangos canran y boblogaeth 16-64 oed sydd mewn gwaith yng Nghymru. Mae'r amcangyfrif o gyflogaeth o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cynnwys pawb sydd mewn gwaith, gan gynnwys y bobl hynny sy'n gweithio'n rhan-amser. Mae cyflogaeth yn mesur nifer y bobl sydd mewn gwaith ac mae'n wahanol i nifer y swyddi oherwydd bod gan rai pobl fwy nag un swydd.

Mae canran y bobl 16-64 oed sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru wedi codi ar y cyfan ers 2011. Ar hyn o bryd, mae'r gyfradd cyflogaeth yng Nghymru tua 72.8% (blwyddyn a ddaeth i ben Rhagfyr 2020). Mae hyn yn cymharu â chyfradd cyflogaeth amcangyfrifedig o 75.3% ledled y DU (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth).

Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau amlwg yn bodoli ar gyfer grwpiau gwarchoddedig sy'n cael eu tangynrychioli'n sylweddol yn y farchnad lafur. Er enghraifft, mae mwy o ddata wedi'u dadgyfuno o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos:

- Roedd y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl yng Nghymru tua 47.8%, o'i gymharu ag 80.2% ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl.
- Roedd y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig¹ yng Nghymru tua 65.4% o'i gymharu â 73.3% ar gyfer pobl o gefndir Gwyn.
- Roedd y gyfradd cyflogaeth ar gyfer menywod yng Nghymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2020 tua 70.7%, o'i gymharu â 75.0% ar gyfer dynion a 72.8% ledled Cymru.

Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cyflogadwyedd yn 2018, a osododd nifer o dargedau sy'n ymwneud â chyfran y bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru. Gosododd y Cynllun dargedau i 'ddileu'r bwlch mewn cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd pobl o oed gweithio rhwng Cymru a'r DU o fewn 10 mlynedd'.

Ers 2018, mae'r bwlch yn y gyfradd diweithdra rhwng Cymru a'r DU wedi lleihau, ac yn 2020 disgynnodd y gyfradd diweithdra yng Nghymru yn is na chyfradd y DU.

Nod y garreg filltir genedlaethol hon yw cynnal y sefyllfa hon yn y tymor hir, a thrwy osod mesur cymharol mae'n caniatáu i'r cyd-destun economaidd ehangach ledled y DU gael ei ystyried.

Rydym am gynyddu nifer y bobl sy'n gallu cymryd rhan mewn gwaith cynaliadwy o ansawdd da, y maent yn cael cyflog teg ar ei gyfer, gan sicrhau bod hyn yn cael ei rannu'n deg yn ddaearyddol ac yn ddemograffig, yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Rydym am roi'r cyfle gorau i bawb ddod o hyd i waith teilwng a'i gadw gyda rhagolygon hirdymor, gweithredu i sicrhau'r tegwch mwyaf posibl i bawb a dileu anghydraddoldeb ar bob lefel o gymdeithas.

Wrth adrodd ar y garreg filltir genedlaethol, byddwn yn cyhoeddi data cyfraddau cyflogaeth ac yn mesur cynnydd ar gyfer grwpiau gwarchoddedig gan gynnwys yn ôl rhyw, oedran, anabledd ac ethnigrwydd.

¹ Sylwch: Mae ymatebion yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn seiliedig ar dueddiadau demograffig cyn pandemig COVID-19, ac o ganlyniad mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bwriadu ail-bwysoli amcangyfrifon ar gyfer 2020 yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd hyn yn effeithio'n arbennig ar amcangyfrifon ar gyfer gwlad enedigol, cenedligrwydd, ethnigrwydd ac anabledd. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/methodologies/labourforcesurveyweightingmethodology.

Carreg Filltir 5:

Dangosydd Rhif 17	Cydraddoldeb Cyflog – ar gyfer y rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd
1 Cymru lewyrchus	4 Cymru sy'n fwy cyfartal
Carreg Filltir 5	Dileu'r bwlch cyflog ar gyfer y rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd erbyn 2050

Beth mae'r data'n dweud wrthym?

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar sail llawn-amser canolrifol fesul awr (ac eithrio goramser) ym mis Ebrill 2020 oedd 4.3% yng Nghymru a 7.4% yn y DU. Yn 2018, talwyd 9.9% yn llai i weithwyr anabl yng Nghymru na gweithwyr nad oeddent yn anabl. Mae hyn yn cymharu â 12.2% ledled y DU. Yn 2019, talwyd 1.4% yn llai i weithwyr o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru na gweithwyr Gwyn. Dyma'r bwlch cyflog lleiaf mewn perthynas ag ethnigrwydd ar draws gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr ac mae'n cymharu â 2.3% ledled Cymru a Lloegr.

Mae data ar gyfer y bylchau cyflogau ar gyfer pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig yn ddata weddol newydd, er enghraifft dadansoddiad 2018 o fylchau cyflogau ar gyfer pobl anabl yn y DU oedd y cyntaf a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Mae dileu'r bwlch cyflog yn gam hanfodol tuag at gymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfiawnder economaidd a chymdeithasol ac mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyflog yn elfen hollbwysig o hyn.

Mae gwahaniaethau cyflog yn lleihau enillion oes ac yn effeithio ar bensiynau – achos sylweddol o dlodi yn ddiweddarach mewn bywyd. Er bod llawer o fylchau cyflog yn gostwng yn raddol dros amser, mae mesurau cyni a'r newidiadau i'r farchnad lafur (e.e. toriadau swyddi yn y sector cyhoeddus a rhewi cyflogau a'r defnydd cynyddol o gontractau dim oriau yn y sector preifat) wedi cyfrannu at ehangu gwahaniaethau cyflog yn y tymor byr.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyflogau hefyd yn elfen allweddol yn ein gweledigaeth o Gymru o waith teg a'r gydnabyddiaeth bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gwaith yn rhan annatod o'n hymrwymiad ehangach i waith teg i bob gweithiwr yng Nghymru.

Mae pennu'r uchelgais hon fel y garreg filltir genedlaethol yn darparu cysondeb yn ein dull gweithredu ac yn ategu'r dyheadau a nodir yn adroddiad *Gwaith Teg Cymru*, www.llyw.cymru/gwaith-teg-cymru y *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol*, www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chamau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-20202024.pdf y *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol*, www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol y *Cynllun Gweithredu Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau* www.llyw.cymru/hyrwyddo-cydraddoldeb-rhwng-y-rhywiau-cynllun-gweithredu a *Gweithredu ar Anabledd: yr hawl i fyw'n annibynnol* www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/gweithredu-ar-abledd-yr-hawl-i-fywn-annibynnol-fframwaith-ar-cynllun-gweithredu.pdf.

Carreg Filltir 6:

Dangosydd Rhif 05	Y ganran o'r plant sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw ²
	<div style="display: flex; justify-content: space-around;"> <div style="background-color: #e91e63; color: white; padding: 5px; border-radius: 3px;">3</div> <div>Cymru iachach</div> <div style="background-color: #9c27b0; color: white; padding: 5px; border-radius: 3px;">5</div> <div>Cymru o gymunedau cydlynus</div> </div> <div style="background-color: #e91e63; color: white; padding: 5px; border-radius: 3px; margin-top: 5px;">4</div> <div>Cymru sy'n fwy cyfartal</div>
Carreg Filltir 6	Lleihau canran y plant â llai na dau ymddygiad iach i 6% erbyn 2035 a llai nag 1% erbyn 2050

Beth mae'r data'n dweud wrthym?

Yr ymddygiadau ffordd iach o fyw ar gyfer plant yw: peidio smygu, bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd, byth/anaml yn yfed alcohol, a bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol. Mae'r canllaw gweithgarwch corfforol ar gyfer plant a amlinellir yn nangosydd cenedlaethol 5 yn nodi 'bod yn gorfforol egniol am awr neu fwy, 7 diwrnod yr wythnos' (Llywodraeth Cymru, 2019).

Roedd gan 12% o blant lai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw yn 2017/18.

Data wedi'u dadgyfuno (2019/20):

- Roedd 18% o blant yn bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol dyddiol
- Roedd 48% o blant yn bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd
- Roedd 94% o blant byth yn smygu
- Roedd 81% o blant byth/anaml yn yfed alcohol

At ei gilydd, mae'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn awgrymu mai ychydig o newid a fu mewn ymddygiadau ffordd iach o fyw ymhlith plant yng Nghymru ers 2013/14.

Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Un o ddibenion sylfaenol y Ddeddf yw diogelu iechyd a lles pobl Cymru, a'n huchelgais yw darparu cyfleoedd a dileu rhwystrau i blant i gael y dechrau iachaf posibl i'w bywydau.

Rydym hefyd yn gwybod bod dilyn arferion da fel plant yn aml yn datblygu i wneud dewisiadau gwell fel oedolion, a'n gweledigaeth fel y nodir yn nogfen *Cymru Iachach* www.llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol yw y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach. Er mai ein huchelgais hirdymor yw i bob plentyn yng Nghymru ddilyn ffyrdd iach o fyw erbyn 2050, rydym wedi gosod y targed interim o haneru canran y plant sydd â llai na dau ymddygiad iach i 6% erbyn 2035.

Awgrymodd ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac adborth o ddigwyddiad bord gron gyda rhanddeiliaid y byddai carreg filltir genedlaethol feintiol yn fwy mesuradwy na cherrig milltir cenedlaethol naratif yn unig, ac felly byddai'n darparu mwy o atebolrwydd i sbarduno cynnydd yn y maes hwn ledled Cymru.

Oherwydd effaith COVID-19 ar yr Arolwg Cenedlaethol byddwn yn datblygu carreg filltir genedlaethol ar gyfer ymddygiadau iach i oedolion fel rhan o gam 2 y gwaith hwn, a fydd wedi'i gynllunio i ategu'r carreg filltir genedlaethol hon.

Carreg Filltir 7:

Dangosydd Rhif 14	Ôl Troed Ecolegol Cymru	
	1 Cymru lewyrchus	7 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
	2 Cymru gydnerth	
Carreg Filltir 7	Dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r byd y bydd Cymru'n ei defnyddio erbyn 2050	

Beth mae'r data'n dweud wrthym?

Defnyddiwyd y mesur ôl troed i gyfleu faint o blanedau fyddai eu hangen pe bai pawb yn y byd yn defnyddio'r un peth â Chymru. Yn 2011 roedd yr amcangyfrif hwn yn cyfateb i werth 2.5 planed o adnoddau.

Mae ôl troed byd-eang yn dangos cyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned. Mae'n cynrychioli faint o arwynebedd tir sydd ei angen i ddarparu deunyddiau crai, ynni a bwyd, yn ogystal ag amsugno'r llygredd a'r gwastraff a gaiff eu creu, a chaiff ei fesur mewn hectarau global.

Cafodd Ôl Troed Ecolegol Cymru ei gyfrifo gan Sefydliad Amgylcheddol Stockholm/Prifysgol Efrog ar gyfer 2011 ac fe'i cyhoeddwyd yn 2015. Awgrymodd hyn bod ôl troed ecolegol Cymru yn 2011 yn 10.05 miliwn hectar global (Mgha). Mae hyn oddeutu 5 gwaith maint Cymru (2 miliwn hectar) a 3.28 hectar global y pen.

Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Awgrymir ein bod yn ailenwi'r mesur hwn yn Ôl Troed Byd-eang Cymru fel disgrifiad mwy cywir o'r ystod eang o ysgogiadau a rhannau sy'n cynnwys bwyd, adeiladu, gwasanaethau iechyd yn ogystal â defnyddio ynni a nwyddau wedi'u mewnforio.

Mae'r ôl troed byd-eang yn cael ei ddylanwadu gan y bwyd y mae pobl yn ei fwyta, y ffordd y maent yn teithio a'r ynni y maent yn ei ddefnyddio yn y cartref. Mae hefyd yn cyfrif am brynu cynhyrchion a gwasanaethau o yswiriant i setiau teledu i eitemau o ddillad. Yn olaf, mae hefyd yn cynnwys effeithiau gweithgarwch adeiladu a buddsoddi mewn seilwaith.

Fel rhan o'n gweledigaeth o Gymru gynaliadwy erbyn 2050 ac fel rhan o'n hymateb parhaus i'r argyfwng hinsawdd a natur, rydym am weld Cymru yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear yn unig.

Rydym yn edrych ar ffordd orau o gofnodi pob ymyriad rydym yn ei gyfrannu at yr uchelgais hon ar hyn o bryd, a sut y gallwn gynhyrchu mesur Ôl Troed diweddar i helpu i'n harwain.

Carreg Filltir 8:

Dangosydd Rhif 41	Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru	
	1 Cymru lewyrchus	3 Cymru iachach
	2 Cymru gydnerth	7 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Carreg filltir 8	Bydd Cymru yn cyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2050	

Beth mae'r data'n dweud wrthym?

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer lleihau nwyon tŷ gwydr o Gymru ac yn nodi targed i leihau allyriadau i sero-net erbyn 2050.

Mae Deddf yr Amgylchedd a'r dangosydd cenedlaethol yn mesur cynnydd drwy gyfeirio at y Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr, sy'n cofnodi lefel amcangyfrifedig yr allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol net o Gymru. Mae'r data hwn yn darparu adroddiad ystadegol ar lefel flynyddol allyriadau net Cymru, gan adrodd ar gyfanswm y ffynonellau allyriadau amcangyfrifedig o Gymru a'r amcangyfrif o'r achosion o dynnu allyriadau ar gyfer Cymru (h.y. allyriadau a dynnwyd o'r atmosffer gan goedwigoedd Cymru).

Yn 2019 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer) adroddwyd bod allyriadau net Cymru yn gyfanswm cyfwerth â 39.0 miliwn tonnell o garbon deuocsid (CO₂). Roedd allyriadau Cymru yn 39.2 MtCO₂e yn 2019, tra bod yr allyriadau a dynnwyd o'r atmosffer yng Nghymru wedi dod i gyfanswm -0.2 MtCO₂e. Mae'r garreg filltir genedlaethol yn gosod targed o gydbwyso allyriadau net Cymru i gyfanswm o sero yn y flwyddyn 2050.

Mae angen adroddiadau cynnydd ffurfiol ar gyfer targed Deddf yr Amgylchedd bob 5 mlynedd yn unol â chyfnodau'r gyllideb garbon. Fodd bynnag, adroddir ar ddangosydd cenedlaethol Rhif 41 yn flynyddol. Felly, gall y data a adroddir o dan ddangosydd 41 roi syniad o'r cynnydd cyffredinol tuag at y garreg filltir genedlaethol sero-net, yn flynyddol.

Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Ym mis Mawrth 2021 cymeradwyodd Senedd Cymru darged sero-net ar gyfer 2050. Ystyr sero-net yw cydbwyso'r allyriadau nwyon tŷ gwydr â faint o nwyon rydym yn eu tynnu o'r atmosffer. Mae gan Gymru dargedau interim hefyd ar gyfer 2030 a 2040, a chyfres o gyllidebau carbon 5 mlynedd.

Drwy osod sero-net erbyn 2050 fel carreg filltir genedlaethol, rydym yn annog ac yn grymuso pawb yng Nghymru i leihau allyriadau, sy'n hanfodol gan fod mwy na hanner argymhellion y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn cael eu hysgogi'n rhannol neu'n llawn gan newidiadau cymdeithasol neu ymddygiadol.

Mae hyn yn golygu bod y llywodraeth, cymunedau a busnesau yn gweithio gyda'i gilydd i newid sut rydym yn teithio, siopa, gwresogi ein cartrefi, yn ogystal â newid i ddeiet carbon is. Ym mhob achos, mae angen gostyngiadau mawr yn faint o ynni ac adnoddau naturiol a ddefnyddiwn er mwyn cyflawni'r targedau.

Carreg Filltir 9:

Dangosydd Rhif 37	Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
	<ul style="list-style-type: none"> 5 Cymru o gymunedau cydlynus 6 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu 7 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Carreg Filltir 9	Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Beth mae'r data'n dweud wrthym?

Mae *strategaeth y Gymraeg 2050* www.llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg yn cynnwys amcanestyniad a thrywydd i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, sydd wedi'u seilio yn bennaf ar ddata cyfrifiad a phoblogaeth. Yng Nghyfrifiad 2011, dywedodd 562,000 o bobl tair oed neu hŷn eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r strategaeth yn nodi y byddwn yn adolygu ein cynnydd ac yn ailedrych ar y trywydd yn ôl yr angen. Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yng Nghymru ym mis Mawrth 2021 ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (sy'n gyfrifol am y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr) yn bwriadu cyhoeddi holl ddata Cyfrifiad 2021 o fewn 24 mis i'r cyfrifiad. Felly, disgwylir i'r data ar y Gymraeg fod ar gael erbyn mis Mawrth 2023. Bryd hynny, byddwn yn diweddarau'r amcanestyniad a'r trywydd i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio ni fel pobl ac fel cenedl. Pennwyd y targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn 2017 wrth gyhoeddi strategaeth *Cymraeg 2050*. Mae wedi darparu naratif a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod y 'Gymraeg yn ffynnu' fel y disgrifir yn y nod llesiant genedlaethol.

Ers cyhoeddi'r targed, rydym wedi cael ein calonogi gan y cynllunio sydd wedi digwydd ar draws y sectorau addysg, gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r ymdrechion hynny wedi arwain at agor 40 o grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg newydd, rhywfaint o gynnydd yn y ganran a'r niferoedd sy'n derbyn eu haddysg ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg, a myfyrwyr yn astudio mwy o weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch. Mae nifer cynyddol o oedolion bellach yn dewis dysgu Cymraeg.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd. Felly hefyd y cyfrifoldeb i weithredu polisiau o'i phlaidd. Mae gosod carreg filltir genedlaethol sy'n adleisio targed *Cymraeg 2050* o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yn ein galluogi, ar y cyd â chyrff cyhoeddus, i adnewyddu ein egni, bod yn systematig yn ein dull o gynllunio, a gwella cydweithio er mwyn sicrhau'r etifeddiaeth y mae ein hiaith yn ei haeddu.

Adran 3

Dangosyddion Cenedlaethol

Cefndir

Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod dangosyddion cenedlaethol (dangosyddion) i asesu'r cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Rhwng mis Medi 2015 a mis Ionawr 2016 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus helaeth www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-sut-mae-mesur-cynnydd-cenedl i nodi pa set o ddangosyddion y dylid eu datblygu i fesur orau y cynnydd yn erbyn y nodau llesiant.

Drwy'r ymgynghoriad, cytunwyd y dylai dangosyddion fesur canlyniadau ac y dylid cadw nifer y dangosyddion yn fyr ac yn ymarferol hwylus. Maent yn fesurau ar gyfer Cymru gyfan ac nid ydynt yn mesur perfformiad unrhyw un corff cyhoeddus. Dylai pob dangosydd wneud cyfraniad at gyflawni mwy nag un nod ac yn ogystal, dylai'r cyhoedd allu uniaethu â'r dangosyddion a dweud stori glir o gynnydd tuag at y nodau llesiant.

Fe gafodd y dangosyddion eu cyhoeddi www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-dangosyddion-cenedlaethol a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2016. Mae *adroddiad blynyddol Llesiant Cymru* www.llyw.cymru/llesiant-cymru yn defnyddio'r dangosyddion cenedlaethol a data eraill i gyflwyno darlun o'r cynnydd rydym yn ei wneud tuag at gyflawni'r nodau.

Pa newidiadau sydd eisoes ar y gweill i'r Dangosyddion Cenedlaethol?

Yn 2019, cynhaliom ymgynghoriad i ofyn am adborth ar y tair blynedd gyntaf o ddefnyddio'r dangosyddion, a gofyn a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r set. Dangosodd yr adborth a gawsom www.llyw.cymru/mesur-cynnydd-ein-cenedl nad oedd unrhyw awydd aruthrol am ddiweddariadau sylweddol i'r dangosyddion ond gwnaethom ymrwymo i wneud rhai newidiadau, gan gynnwys:

- a) Diwygio'r dangosyddion ynghylch ansawdd gwaith, gan ystyried argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg:
 - Disodli'r dangosydd presennol ar ansawdd cyflogaeth gyda dangosydd ar gyfran y cyflogeion sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw go iawn, o Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Oriau ac Enillion.
 - Dileu'r dangosydd ar foddhad swydd.
 - Cyflwyno dangosydd ar gyfran y cyflogeion y pennir eu cyflog drwy fargeinio ar y cyd, o Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Oriau ac Enillion.
- b) Cynnwys cwestiwn newydd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar "ddinasyddion byd-eang gweithgar" i ddisodli'r dangosydd ar bartneriaethau'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Bydd cwestiynau yn y set hon yn cynnwys a yw unigolion wedi rhoi, gwirfoddoli neu gefnogi ystod o faterion rhyngwladol megis tlodi byd-eang, hawliau dynol a newid yn yr hinsawdd.

- c) Ehangu'r dangosydd gwahaniaeth cyflog i gynnwys bylchau cyflog mewn perthynas ag ethnigrwydd ac anabledd, ochr yn ochr â'r dangosydd presennol ar gyflogau'r rhywiau.
- d) Ehangu'r dangosydd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr o fewn Cymru i'w gysoni â Rhan 2 (35) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Prif ergyd y newid hwn yw cynnwys cyfran Cymru o awyrennau rhyngwladol a llongau rhyngwladol.
- e) Diwygio'r dangosydd ar siaradwyr Cymraeg i adlewyrchu'r niferoedd yn hytrach na chanran y siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn gyson â'r uchelgais genedlaethol i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sef y garreg filltir genedlaethol sy'n cael ei chynnig ar gyfer y Gymraeg.
- f) Ailenwi dangosydd Ôl Troed Ecolegol Cymru yn Ôl Troed Byd-eang Cymru, sy'n adlewyrchu'n fwy cywir sut y cyfeirir ato'n rhyngwladol a natur drawsbynciol yr hyn a fesurir.

Byddwn hefyd yn sicrhau y caiff y dangosyddion presennol eu dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig a chefnidir economaidd-gymdeithasol lle mae data ar gael.

Yn sgil effaith pandemig COVID-19, ni lwyddwyd i wneud y newidiadau hyn i'r dangosyddion yn 2020 yn ôl y bwriad. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ymrwymo i weithredu'r newidiadau hyn eleni.

Yn ogystal, mae'n amhosibl anwybyddu profiad y 18 mis diwethaf a'r meysydd y mae pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw atynt fel rhai sy'n cyfrannu at les Cymru. Felly, rydym yn ceisio barn ynghylch a yw profiad pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at fylchau yn y set bresennol o ddangosyddion.

Cynigion

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi'r bylchau posibl yn y set gyfredol o ddangosyddion yr hoffem gael eich barn arnynt. Mae cwestiynau sy'n ymwneud â phob un o'r rhain wedi'u cynnwys ar y ffurflen ar-lein www.smartsurvey.co.uk/s/C5BX3H/?lang=592674.

Ein nod yw cael set fach o ddangosyddion sy'n ein helpu i ddeall cynnydd tuag at y nodau llesiant, ond mae'n bwysig eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn adlewyrchu'r meysydd sy'n bwysig er mwyn cyflawni'r saith nod llesiant. Mae profiad pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at bynciau sydd wedi dod yn fwyfwy pwysig wrth gyflawni ein nodau llesiant ac felly gellid eu cynnwys yn y set o ddangosyddion.

Drwy ein gweithgarwch ymgysylltu rydym wedi dod ar draws bylchau posibl, gan gynnwys cynhwysiant digidol a theithio. Rydym yn gofyn am eich barn ar y rhain a bylchau posibl eraill yn y set bresennol o ddangosyddion.

Yn ogystal, rydym hefyd yn ceisio barn ar ddangosydd 33 www.llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol Canran yr anheddau gyda pherfformiad ynni digonol ac yn gofyn a ddylid ei newid.

Dull Teithio

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddangosyddion yn ymwneud yn uniongyrchol â thrafnidiaeth a theithio. Amlygwyd hyn fel bwch posibl o gofio bod rhai mathau o dtrafnidiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol at allyriadau carbon a bod symud at ddulliau teithio mwy cynaliadwy yn bwysig ar gyfer datgarboneiddio ac iechyd corfforol.

Mae dwy agwedd y gellid eu hystyried fel rhan o'r dangosydd hwn. Gellid ystyried dangosydd ar deithio drwy ddau lens:

- a) canolbwyntio ar deithio llesol, er enghraifft canran y bobl sy'n teithio'n weithredol neu ganran y teithiau sy'n deithiau llesol;

neu

- b) canolbwyntio ar ddatgarboneiddio, er enghraifft canran y teithiau sy'n defnyddio dull cynaliadwy. Mae 'Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021' yn nodi cynlluniau ar gyfer y system drafnidiaeth yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n canolbwyntio ar yr angen am lai o geir ar y ffyrdd, ac mae'n gosod targed i gynyddu cyfran y teithiau sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio. Cynigir Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru newydd a fydd yn darparu data ar rannu dulliau teithio ac yn galluogi mesur cynnydd.

Safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol

Yn ystod pandemig COVID-19 mae offer digidol wedi bod yn fwyfwy pwysig ar gyfer cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a gweithio o bell. Mae pandemig COVID-19 wedi amlygu ymhellach y rhwystrau a wynebir gan y rhai nad oes ganddynt yr offer na'r sgiliau i ddefnyddio gwasanaethau digidol yn hyderus. Mae safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol i Gymru yn cael ei hystyried, a fyddai'n cynnwys llinell sylfaen gydnabyddedig ar gyfer beth a olygir gan gynhwysiant digidol, gan gynnwys cysyniadau o bosibl megis cyflymder cysylltedd, dyfeisiau a sgiliau digidol sylfaenol.

Gallwch weld rhagor o fanylion yn yr adran *Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd: cynllun cyflawni* www.llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-i-gymru-cynllun-cyflawni-html

Dangosydd 33 – Canran yr anheddau gyda pherfformiad ynni digonol

Mae'r dangosydd hwn yn mesur perfformiad ynni gan ddefnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP). Ceir cydnabyddiaeth gynyddol nad defnyddio'r SAP yn unig yw'r meincnod gorau ar gyfer effeithlonrwydd ynni tai. Efallai y bydd angen cyfres ehangach o fesurau sy'n cydnabod effeithlonrwydd ynni, sgôr effaith amgylcheddol a fforddiadwyedd. Yn ogystal, wrth i fethodoleg SAP gael ei gwella a'i hadnewyddu o bryd i'w gilydd gall gael effaith fawr ar ail-gategoreiddio sgorau hŷn felly efallai na fydd yn darparu mesur hirdymor cyson.

O ystyried y pwyntiau hyn, rydym yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid diwygio'r dangosydd presennol.

Bylchau ychwanegol yn y set o Ddangosyddion Cenedlaethol

Byddem hefyd yn croesawu eich barn ar unrhyw fylchau pellach y teimlwch y gallai pandemig COVID-19 fod wedi tynnu sylw atynt yn y ffordd rydym yn mesur cynnydd tuag at ein nodau llesiant.

Os hoffech gynnig dangosydd ychwanegol, a fydddech cystal â darparu'r wybodaeth ganlynol:

- Beth yw enw'r dangosydd a gynigir?
- Beth yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn?
- Rhowch esboniad pam bod y dangosydd hwn yn mesur llesiant Cymru orau.
- Pa nodau llesiant y mae'r dangosydd yn effeithio'n uniongyrchol arnynt?

Adran 4

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cerrig Milltir Cenedlaethol

Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno â'r ddwy garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 8 *Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol?*

Ydw/Nac ydw

- a) Os ydych yn cytuno â nhw, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fyddech chi'n ei newid am y cerrig milltir cenedlaethol arfaethedig?
- b) Os nad ydych yn cytuno â nhw, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 22 *Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran?*

Ydw/Nac ydw

- a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
- b) Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 21 *Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith?*

Ydw/Nac ydw

- a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
- b) Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 17 *Cydraddoldeb Cyflog – o ran y rhywiau, gweithwyr anabl a gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?*

Ydw/Nac ydw

- a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
- b) Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 5 *Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw?*

Ydw/Nac ydw

- Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
- Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 14 *Ôl Troed Ecolegol Cymru?*

Ydw/Nac ydw

- Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
- Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fabwysiadu'r targed presennol o *allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net fel carreg filltir genedlaethol?*

Ydw/Nac ydw

- Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fabwysiadu targed presennol Cymraeg 2050 sef cyrraedd *miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel carreg filltir genedlaethol?*

Ydw/Nac ydw

- Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 9

Sut, yn eich barn chi, y dylem gyfleu'r cerrig milltir cenedlaethol a'r dangosyddion llesiant cenedlaethol i bobl a chymunedau Cymru?

Ymateb testun agored

Cwestiwn 10

Rydym yn awyddus i gasglu tystiolaeth ar effeithiau posibl cyflawni'r holl gerrig milltir cenedlaethol, ac unrhyw gyfleoedd posibl. Yn benodol, a oes unrhyw gysylltiadau rhyngddynt? Er enghraifft, gallai gwneud cynnydd tuag at gyflawni un o'r cerrig milltir cenedlaethol gael effaith anfwriadol ar garreg filltir genedlaethol arall, neu gallai fod cyfleoedd i sicrhau manteision ehangach rhwng cerrig milltir cenedlaethol. Defnyddiwch y lle hwn i ddarparu tystiolaeth o'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau hyn.

Ymateb testun agored

Dangosyddion Cenedlaethol

Defnyddiwch y templed hwn i ddarparu sylwadau am gynhwysiant digidol, teithio cynaliadwy neu fylchau posibl eraill yn y set bresennol o ddangosyddion, ac i ddarparu sylwadau am newidiadau posibl i ddangosydd 33.

Dull teithio

Cwestiwn 11

Ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu dangosydd ar ddull teithio at y set bresennol o ddangosyddion cenedlaethol?

Ydw/Nac ydw

- Os gwnaethoch ateb “Ydw”, nodwch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd eu casglu?
- Os gwnaethoch ateb “Nac ydw”, pam na fyddai hwn yn ddangosydd priodol?
- Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata (neu ffynonellau data) y gellid ei defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

Safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol

Cwestiwn 12

Ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu dangosydd ar safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol at y set bresennol o ddangosyddion?

Ydw/Nac ydw

- Os gwnaethoch ateb “Ydw”, nodwch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd eu casglu?
- Os gwnaethoch ateb “Nac ydw”, pam na fyddai hwn yn ddangosydd priodol?
- Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata (neu ffynonellau data) y gellid ei defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

Dangosydd 33 – Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol (wedi'u mesur gan ddefnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol)

Cwestiwn 13

Ydych chi'n meddwl y dylid newid dangosydd 33 “y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol”?

Ydw/Nac ydw

- Os gwnaethoch ateb “Ydw”, nodwch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd eu casglu?
- Os gwnaethoch ateb “Nac ydw”, pam na ddylid newid y dangosydd?
- Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata (neu ffynonellau data) y gellid ei defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

Bylchau pellach yn y set o ddangosyddion cenedlaethol

Cwestiwn 14

Byddem hefyd yn croesawu eich barn ar unrhyw fylchau pellach yr ydych yn credu sydd wedi'u hamlygu gan bandemig COVID-19 yn y ffordd yr ydym yn mesur cynnydd tuag at ein nodau llesiant.

Os hoffech gynnig dangosydd ychwanegol, rhowch yr wybodaeth ganlynol:

- Beth yw enw'r dangosydd arfaethedig?
- Beth yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn?
- Rhowch esboniad ar gyfer pam mai'r dangosydd hwn sy'n mesur llesiant Cymru orau
- Ar ba nodau llesiant y mae'r dangosydd yn effeithio'n uniongyrchol?

Ymateb testun agored